

CNEPPYN GWERTHRYNION, pencerdd a gramadegydd o'r 13eg ganrif

Enw: Cneppyn Gwerthrynion

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: pencerdd a gramadegydd

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd

Awdur: David Myrddin Lloyd

fel y mae debycaf, er na cheir, hyd y gwyddom, ddim o'i waith yn aros. Gwelir y cyfeiriad cynharaf ato gan **Wilym Ddu o Arfon** (bardd a ganai yn 1322) yn ei awdl farwnad i Drahaearn Brydydd (*M.A.* 277b 12/13), lle'r enwir y Cneppyn ymhlith nifer o brifeirdd y 13eg ganrif, gan honni mai i olyniaeth y 'blaid penceirddiaid' hyn yr oedd Trahaearn yn perthyn. Gellir casglu o hyn ei hanfod (sef Cneppyn) o Werthryniawn (yn 'sir Faesyfed'), a bod ei gerdd yn 'Ladin gyfiawn,' sef yn ôl safonau rhetoreg Lladin ei gyfnod.

Mewn rhai llawysgrifau ceir yr enw Cneppyn Gwerthryniawn fel un o nifer o lysenwau ar **Sypyn Cyfeiliog** neu Ddafydd Bach ap Madog Wladaidd, ond gan fod y Dafydd hwn yn canu yn ddiweddar yn y 14eg ganrif, ni ddichon mai ef oedd y Cneppyn gwreiddiol (gweler *I.G.E.*, arg. 1925, clxvii et seq.).

Yn Cardiff MS. 38, sef copi o'r 'Pum Llyfr Kerddwriaeth' yn llaw **Wiliam Cynwal**, ac mewn copïau eraill ohonynt o'r 16eg ganrif, sonnir am 'Cnyppyn Gwerthryniawn' (neu Werthryniawc) fel gramadegydd, a'i enwi o flaen **Dafydd Ddu Athro**. Gan fod gramadeg y beirdd yn seiliedig ar y 'ddwneid' Ladin, y mae hyn yn hawdd ei gysoni â thystiolaeth **Gwilym Ddu**, ac yn awgrymu bod gramadeg Cymraeg sgrifenedig yn nwylo'r penceirddiaid cyn gynhared â'r 13eg ganrif o leiaf (gweler **G. J. Williams**, *Gramadegau'r Penceirddiaid*, xx-xxi).

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Lloyd, D. M., (1953). CNEPPYN GWERTHRYNION, pencerdd a gramadegydd o'r 13eg ganrif. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CNEP-GWE-1200>

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government